Cylchlythyr Ffes 3: Rhagfyr 2021

Dyddiadau Pwysig:

Dyddiad:	Gweithgaredd:
14/12/21 + 15/12/21	Asesiadau Llafar Unigol Cymraeg (Blwyddyn 10)
16/12/21	Cinio Nadolig
23/12/21	Gwyliau'r Nadolig
6/1/22 + 7/1/22	HMS (dim ysgol i ddisgyblion)
11/1/22	**Arholiad TGAU Saesneg Llenyddiaeth (Blwyddyn 10 + 11)**
4/2/22	Gweithdy Shakespeare – Blwyddyn 9 a 10.
15/2/22 – 18/2/22	Gweithdy Technocamps
21/2/22 – 25/2/22	Hanner Tymor
2/3/22	Gweithdy Seren (grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 9)
14/3/22	Noson Rieni Blwyddyn 9
23/3/22	Gweithdy Seren (grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10)
11/4/22 – 22/4/22	Gwyliau'r Pasg
6/4/22 a 7/4/22	Asesiad Llafar Llenyddiaeth Gymraeg (Mynydd Grug)

Gig Plant Mewn Angen

Cafodd disgyblion ac athrawon y Brif Safle wledd o berfformiadau yn ystod gig casglu arian i ddiwrnod Plant Mewn Angen. Dechreuwyd y gig efo perfformiad gan fand roc disgyblion Blwyddyn 11. Yna cafwyd berfformiad cit drymiau ar y cyd efo Mr Gareth Roberts a Dyfan Lloyd ac yna cystadleuaeth 'drumathon' efo Mr Roberts a Cai Gray Evans. Yna fe ddaeth y perfformiad olaf gyda band Blwyddyn 11, Miss Cooper ar y piano a Mr Riki Rowlands yn canu'r gân enwog 'Don't Stop me Now'. Braf iawn oedd cael gwylio a gwrando ar berfformiadau byw o safon arbennig.

Digwyddiadau Gyrfa Cymru

Gweithdy Creadigol

Yn ddiweddar, croesawyd Pontio, Opra Cymru ac Only Boys Aloud i'r ysgol. Cafodd disgyblion Blwyddyn 10 wasanaeth arbennig gan gynrychiolydd o Pontio a oedd yn rhoi cyflwyniad iddyn nhw am y gwahanol swyddi sy'n bodoli yno. Yna, cafodd disgyblion Blwyddyn 9 weithdy carwsel a oedd yn cylchdroi rhwng Pontio, Opra Cymru ac Only Boys Aloud. Roedd cyfleoedd i greu stori opra eu hunain, canu a nifer o weithgareddau adeiladu tim. Diolch i Gyrfa Cymru am drefnu'r diwrnod.

Gwasanaethau i Flwyddyn 10 ac 11

Roedd yn braf croesawu cwmni Rondo Media yma yn ddiweddar i gyflwyno gwasanaeth diddorol i ddisgyblion Blwyddyn 10 ac 11 ar y gwahanol swyddi a chyfleoedd sydd ar gael yn y maes hwn.
Croesawyd y Coleg yma hefyd i gyflwyno opsiynau ôl 16 i ddisgyblion Blwyddyn 11. Bydd Coleg Meirion Dwyfor yn dychwelyd yn y flwyddyn newydd i gefnogi disgyblion Blwyddyn 11 efo ceisiadau i'r coleg.

Bag 2 School: Diolch i bawb am gyfrannu tuag at y casgliad Bag2School. Dyma'r casgliad mwyaf gyda 1,780kg o ddillad wedi eu casglu a £534 i gronfa'r Cyfeillion.